# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HAF 2024**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN UWCH**
**3010NA0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN UWCH**

**HAF 2024 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Ofn** gan Hywel Griffiths

**Mynd am dro mewn lockdown (eto)** gan Elen Ifan

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r ddwy gerdd yn sôn am yr angen o gael ymdeimlad o ryddid yn ein bywydau.
- Mae'r ddau fardd ar ddechrau eu cerddi yn cyfeirio at elfennau o ddiflastod e.e. 'cysgod du' ac 'mae min gan y mis bach heddiw'.
- Mae yna elfen o weithredu yn y ddwy gerdd. Mae HG yn ein hannog i ddiffodd y sgrîn tra bod EI yn ein hannog i fynd am dro i ail-ddarganfod rhyfeddodau byd natur.
- Mae yma elfen o ddilyn rheolau gan EI, sef i ni fynd allan i gerdded – a bod hawl gennym i wneud hynny. Ond mae yna elfen o dorri 'drwy hualau'r ofnau' gan HG.
- Mae'r ddwy gerdd yn gorffen yn obeithiol gan ein hannog i fyw bywyd i'r eithaf.
- Mae ofn yn rhan o'r ddwy gerdd, ofn y feirws ymhlyg yng ngherdd EI, a'r ofn y mae'r arweinwyr yn ceisio ei roi arnom yng ngherdd HG.



© WJEC CBAC Cyf.

**Ofn**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Yn y gerdd hon, mae HG yn awgrymu fod rhai o'n gwleidyddion ni eisiau i'r bobl fod ag ofn, gan fod hynny'n ei gwneud hi'n haws iddyn nhw allu ein rheoli ni.

- Yn aml, rydyn ni'n meddwl ein bod ni'n bobl rydd, ond heb fod yn sylweddoli pa mor gaeth ydyn ni mewn gwirionedd.

- Teimlad o ddiflastod a gawn yn y llinellau cyntaf yma. Mae'r geiriau'n awgrymu pobl anhapus, pobl yn llawn ofn a phobl sy'n gweld gobaith yn bell i ffwrdd.

- Creu darlun a wna'r bardd o bobl efallai nad ydyn nhw'n sylweddoli eu bod yn cael eu rheoli mor gaeth. Mae o fantais i'r gwleidyddion ein hatgoffa fod terfysgaeth yn broblem, a dyna arwyddocâd y dyfyniad sydd ar ddechrau'r gerdd gan Gordon Brown, cyn brif weinidog Prydain.

- Rydyn ni weithiau'n teimlo'n saff pan mae problemau'r byd yn bell i ffwrdd, ond mae'n wahanol pan rydyn ni'n sylweddoli fod y tywyllwch ar '[b]ob un cornel stryd'.

- Mae'r gwleidyddion yn ceisio ein rheoli drwy godi ofn arnon ni, ceisio ein gorchymyn i wneud pethau. Felly mae'n arwyddocaol fod y bardd yn defnyddio berfau gorchmynnol i geisio agor ein llygaid. Ond yn hytrach na'n gorchymyn ni i wneud rhywbeth yn erbyn ein hewyllys, yr hyn y mae'r bardd yn ei wneud yw ein gorchymyn i agor ein llygaid i weld yr hyn sydd yn digwydd go iawn.

- Mae'r gyllell hon yn y gerdd yn gyllell wahanol i'r gyllell sy'n dinistrio ac yn lladd. Mae hon yn gyllell felly sy'n adlewyrchu goleuni a gobaith. Mae'n cyferbynnu gyda'r tywyllwch ar ddechrau'r gerdd.

- Mae 'agor llenni'r lolfa' yn cynnig cyfle i ni gael goleuni yn ein bywydau, ac i ddarganfod y gwirionedd.



© WJEC CBAC Cyf.

**Mynd am dro mewn lockdown (eto)**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Teimlad annifyr a gawn ar ddechrau'r gerdd, 'Mae min gan y mis bach heddiw'.
- Er bod mynd am dro yn amlwg yn annifyr yn gorfforol, 'ei fysedd oer', 'wrth i mi grynu', mae hefyd yn 'llesol i'r enaid'. Ond mae'r 'medden nhw' yn awgrymu nad yw'r bardd yn credu hynny gant y cant.
- Yn yr ail bennill cawn ddarlun o'r ffordd y mae'r daith wedi mynd yn arferiad bellach 'fel bob tro'.
- Mae'r bardd yn dangos ei bod wedi diflasu ar un gân er mwyn sgipio i'r nesaf. Mae hyn yn adlewyrchu ceisio dileu undonedd y daith.
- Yn ail hanner y gerdd cawn ddarluniau hyfryd o fyd natur, ac adar yn benodol.
- Mae'r ffaith fod 'sisial y brwyn *bron* yn tawelu ceir y *flyover'* yn rhoi darlun i ni bod sŵn y byd arferol yn dal i fod yn y cefndir er gwaethaf tawelwch y clo mawr.
- Er bod ein bywydau arferol ni wedi newid am ychydig, mae byd natur yn dal i fynd yn ei flaen fel arfer.
- Mae'r gerdd yn gorffen gydag anogaeth i ni fynd allan i fwynhau byd natur, er gwaetha'r cyfyngiadau.

**Neges**

Dylen ni wneud popeth o fewn ein gallu i fyw ein bywyd fel y bydden ni'n dymuno ei fyw.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull 'Ofn'**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| tywyllwch/cysgodion/dychryn | rhestru |
| du | ansoddair |
| diffoddwch | berf orchmynnol |
| ffrind yn sinistr a blin | cyferbyniad |
| fel cyllell wen | cyffelybiaeth |
| cadw pawb yn saff rhag bod yn rhydd | cyferbyniad |

**Arddull 'Mynd am dro mewn lockdown (eto)'**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| ei fysedd oer yn gwthio… | personoli |
| ond dwi mas | Brawddeg fer |
| sgowtio | berf |
| coch | ansoddair |
| fod â'r galon | trosiad |

**Mesur**

**Ofn**

Mae'r gerdd yn gwneud defnydd effeithiol o'r volta, gan newid cyfeiriad y soned. Mae'r gerdd felly'n gorffen yn hyderus a gobeithiol.

**Mynd am dro mewn lockdown (eto)**

Cerdd vers libre, yn adlewyrchu'r rhyddid y mae'r bardd yn ei deimlo wrth gael mynd allan i gerdded ynghanol y clo mawr.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **21-30** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-10** | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.